
Datganiad Ar Ddeddf Caethwasiaeth Fodern

Mae Pŵer Niwclear Horizon yn gwmni ynni sy'n datblygu cenhedlaeth newydd o orsafoedd pŵer niwclear yn y DU. Rydym yn un o is-gwmnïau Hitachi Ltd.

Hwn yw ein trydydd Datganiad Caethwasiaeth Fodern a gyhoeddir yn unol ag Adran 54 Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Mae'n rhoi'r newyddion diweddaraf am y cynnydd rydym wedi'i wneud dros y 12 mis diwethaf, hyd 31ain Mawrth 2018, o ran creu ymateb cadarn i'r perygl o gaethwasiaeth fodern.

Wrth inni baratoi ar gyfer adeiladu ein dau safle niwclear arfaethedig, rydym wedi bod yn canolbwyntio yn ein gwaith ym maes caethwasiaeth fodern ar ddatblygu polisïau, gallu mewnlol a phrosesau priodol i ddeall a rheoli risgiau yn y dyfodol.

Mae'r gwaith hwn yn rhan o'n dull ehangach o reoli'r effeithiau ar hawliau dynol y gellir eu priodoli i'n busnes.

Ein busnes

Mae Horizon yn bwriadu darparu o leiaf 5,400MW o gapasiti cynhyrchu pŵer newydd i'r DU drwy adeiladu dwy orsaf ynni niwclear newydd (y "Prosiect"), y gyntaf yn Wylfa a'r ail yn Oldbury. Gyda'i gilydd, bydd y ddau safle yn cynhyrchu digon o ynni i roi pŵer i oddeutu 10 miliwn o gartrefi.

Mae cynlluniau Pŵer Niwclear Horizon i adeiladu ei brosiect cyntaf, Wylfa Newydd, wedi cael eu derbyn yn ffurfiol i'w hystyried gan yr Arolygiaeth Gynllunio. Ar ben hynny, mae pedair trwydded amgylcheddol allweddol arall wedi cael eu clirio i ddechrau cael eu hasesu gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

Mae tua 350 o staff Horizon yn gweithio mewn dau safle yn bennaf, sef: ein prif swyddfa yng Nghaerloyw a safle Wylfa Newydd. I raddau helaeth, mae ein staff yn cyflawni swyddogaethau rheoli rhaglenni a thechnegol sy'n adlewyrchu natur ein gwaith hyd yma. Rydym hefyd yn cydweithio'n agos ag ymgynghorwyr ac arbenigwyr allanol, llawer ohonynt yn gweithio ochr yn ochr â'n staff ar y ddau safle

Ein Cadwyn Gyflenwi

Mae natur ein gweithgareddau ar hyn o bryd o ran cwmpas yn golygu ein bod eisoes wedi dechrau prynu rhai cynnyrch a gwasanaethau, ond daw'r rhain yn bennaf o sefydliadau yn y DU ac maent yn becynnau risg isel tebyg i wasanaethau technegol ac offer swyddfa.

Rhagwelir y bydd y gwaith cloddio cychwynnol yn Wylfa Newydd yn dechrau yn 2019, gyda'r gwaith adeiladu yn dechrau y flwyddyn ganlynol, sef 2020. Bydd hwn yn un o'r prosiectau seilwaith mwyaf yn y DU a rhagwelir y bydd gweithlu o tua 4,000 yn gweithio ar y safle am y rhan helaethaf o'r gwaith adeiladu, gan godi i hyd at 9,000 ar ei anterth.

I gyflawni'r Prosiect, bydd Horizon yn caffael nifer o gontractau gyda chyflenwyr cymeradwy. Rydym wedi penodi cwmni o gontractwyr i reoli'r prosiect (PMC) yn ddiweddar i fod yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith neu'r nwyddau ac am ansawdd a pherfformiad y gadwyn gyflenwi (gan gynnwys pob haen o isgontractwyr) ar ein rhan.

Rydym eisoes wedi dechrau cydweithio'n agos â'n PMC penodedig wrth inni ddatblygu mwy ar ein dull gweithredu yng nghyswllt caethwasiaeth fodern a symud tuag at weithredu ein polisiau, ein safonau a'n gweithdrefnau wrth i'r gwaith adeiladu ddechrau.

Safonau, egwyddorion a pholisiau presennol

Mae ein gwaith ym maes caethwasiaeth fodern yn cael ei lywio a'i gefnogi gan ddull gweithredu ein rhiant-gwmni yng nghyswllt hawliau dynol. Wrth galon hyn mae Polisi Hawliau Dynol Grŵp Hitachi¹ . .

Rydym wedi llunio nifer o bolisiau a gweithdrefnau ychwanegol perthnasol sy'n ymwneud â'n staff a'n gweithrediadau uniongyrchol, yn ogystal â'n cadwyn gyflenwi estynedig.

- **Cod Ymddygiad Horizon**, sy'n nodi fframwaith y mae Horizon yn disgwyl i staff ei ddilyn wrth gyflawni eu dyletswyddau proffesiynol. Mae'n cwmpasu amrywiaeth eang o bynciau sy'n ymwneud ag ymddygiad, gan gynnwys hawliau dynol, safonau llafur a gwrth-lygredigaeth.
- **Polisi Cydraddoldeb Horizon²**, a'r Gweithdrefnau ac Arferion Cyflogaeth Deg.
- **Gweithdrefn Chwythu'r Chwiban**, sy'n cynnwys llinell gymorth gyfrinachol ac annibynnol.
- **Siarter Cadwyn Gyflenwi Horizon³**, sy'n nodi'r egwyddorion, y disgwyliadau a'r ymddygiadau rydym wedi'u gosod i ni ein hunain ac i'n cyflenwyr.

Risgiau posibl

Yn y flwyddyn flaenorol aethom ati i gynnal cyfres o weithdai gyda staff allweddol o bob rhan o'r busnes er mwyn deall effeithiau posibl y Prosiect ar hawliau dynol, gan gynnwys y perygl o gaethwasiaeth fodern. Yn dilyn y gwaith hwnnw, gwnaethom nodi dau faes blaenoriaeth oedd yn ymwneud â'n cadwyn gyflenwi adeiladu, sef:

- Cael cynnyrch o ddeunyddiau technoleg isel a chynnyrch o wledydd a allai fod yn wledydd risg uchel.
- Prosesau recriwtio a thelerau talu ar gyfer gweithwyr mudol y gellid eu cyflogi ar gontractau tymor byr dros dro ar y safle adeiladu yn y dyfodol.

Mae'r meysydd o risg posibl hyn wedi llywio ein gwaith diwydrwydd dyladwy.

Dull gweithredu o ran diwydrwydd dyladwy

Gan nad yw'r gwaith adeiladu wedi dechrau eto, mae ein gwaith yn parhau i ymwneud â sefydlu dull cadarn o ymdrin â diwydrwydd dyladwy y gellir ei roi ar waith cyn gynted ag y byddwn yn dechrau ar y gwaith:

- Rydym yn llunio cyfres o Ofynion Rheoli Cynaliadwyedd ar gyfer y PMC a phrif Gontractwyr y Prosiect - ein partneriaid yn y gadwyn gyflenwi gwasanaethau adeiladu.

¹ http://www.hitachi.com.hk/pdf/top/hitachi_human_rights.pdf

² [https://www.horizonnuclearpower.com/files/downloads/our-policies/Polisi%20Cydraddoldeb\(1\).pdf](https://www.horizonnuclearpower.com/files/downloads/our-policies/Polisi%20Cydraddoldeb(1).pdf)

³ <https://www.horizonnuclearpower.com/files/downloads/suppliers/HNP%20Siarter%20Cadwyn%20Gyflenwi.pdf>

Rydym hefyd yn llunio Egwyddorion Rheoli'r Gweithlu a fydd yn pennu safonau cyflogaeth gofynnol ar gyfer unrhyw weithiwr adeiladu a fydd yn cael ei gyflogi ar safle'r Prosiect. Byddant yn crynhoi'r gofynion penodol a fydd yn atal y tebygolrwydd o gaethwasiaeth fodern a llafur dan orfod.

- Rydym hefyd yn llunio cyfres o Safonau Cadwyn Gyflenwi Gyfrifol ar gyfer Cyflenwyr Gwasanaethau a Chynnyrch. Bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi yn y flwyddyn i ddod. Byddant yn cynnwys safonau llafur a byddant yn cael eu defnyddio i bennu'r disgwyliadau ar gyflenwyr gwasanaethau a chynnyrch y tu allan i safle adeiladu'r Prosiect. Byddant yn gweithredu fel sail ar gyfer y gwiriadau posibl y byddwn yn eu cynnal yn y dyfodol ar gyflenwyr sydd naill ai wedi'u lleoli mewn gwledydd, neu sy'n dod o sectorau penodol, y gwyddys eu bod yn cynrychioli risg posibl o gaethwasiaeth fodern.
- Yn y flwyddyn i ddod, byddwn hefyd yn dechrau diffinio'r meini prawf asesu cynaliadwyedd sydd i'w cynnwys ym mhroses cymeradwyo cyflenwyr Horizon. Bydd yn rhaid i bob cyflenwr fynd drwy'r broses sgrinio hon, a fydd yn cynnwys cwestiynau ac archwiliadau perthnasol i gaethwasiaeth fodern. Drwy wneud hyn, byddwn yn gallu dechrau blaenoriaethu gweithredu ac ymgysylltu pellach o fewn y gadwyn gyflenwi.

Hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth

Rydym yn sylweddoli ei bod yn bwysig meithrin gallu a dealltwriaeth yn fewnol ynghylch caethwasiaeth fodern, yn enwedig ymysg cydweithwyr ym maes caffael a'r rheini sy'n rheoli ein partneriaethau adeiladu a byddwn yn parhau i godi ymwybyddiaeth o fewn y cwmni.

Yn y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi defnyddio canlyniadau gweithdai ar reoli effeithiau cymdeithasol yn y gadwyn gyflenwi a gynhaliwyd gan ein rhiant-gwmni, Hitachi, ac wedi ymgorffori'r dysgu sydd wedi deillio ohonynt yn ein dull gweithredu ein hunain.

Ar ben hyn, mae Hitachi wedi cyflwyno rhaglen e-ddysgu yn ddiweddar i helpu i hyfforddi gweithwyr. Mae'r rhaglen hon yn egluro'r gwahanol ffurfiau ar gaethwasiaeth fodern a masnachu pobl sy'n bodoli a sut mae rhoi gwybod am unrhyw achosion. Bydd Horizon yn defnyddio'r hyfforddiant hwn ac yn ei gyflwyno i staff allweddol ar lefel Safle'r Prosiect, y PMC ac yng nghyswllt Caffael Horizon yn y flwyddyn i ddod.



Duncan Hawthorne
Prif Swyddog Gweithredol
Dyddiad: 25ain Medi 2018